# Camau Gweithredu Cyfarfod

Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Cymru
Wales **Biodiversity** Partnership

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:** | **Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 23 Mawrth 2021 **Lleoliad:** MS Teams |
| **Amser y cyfarfod:** | 10.00 – 12.00 |
| **Yn bresennol:** | **Llywodraeth Cymru:** Leasa Fielding (Cadeirydd), Gemma Light, Erika Dawson<br>**Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru:** Michaela Scrivin (ysgrifenyddiaeth)<br>Arall: Adrian L Jones (NWWT), Ben Rowson (Amgueddfa Cymru), Beverley Lewis (BBNPA), Chloe Powell-Jennings (CNC), Colin Russell (WWBIC), Dan Jones (Advanced Invasives), David Jermyn (BBNPA), Dawn Thomas (NWWT), Debbie Murphy (CEFAS), Gareth Thomas (CNC), Gemma Williams (Dŵr Cymru), Kate Rodgers (Lefelau Byw), Katie Havard-Smith (Prifysgol Caerdydd), Jennie Jones (CNC), Joanne Cable (Prifysgol Caerdydd), Laura Jones (TrC), Rhys Jones (CNC), Lauri MacLean (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Lee Oliver (GWCT), Lyn Byrne (NWWT), Niall Moore (APHA), Phil Horton (RYA), Phil Stone (Canŵ Cymru), Robert Smith (Iechyd Cyhoeddus Cymru), Sean Hathaway (Cyngor Sir Abertawe), |
| **Ymddiheuriadau:** | Alison Smith (LlC), Anna Holmes (MoW), Bradley Welch (BIS), David Thorpe (CNC), James Millington (LlC), Judith Oakley (Cyngor Sir Abertawe), Louis Macdonald-Ames (Gwy a Wysg), Mark Barber (ARC), Matthew Ellis (CNC), Neville Rookes (CLlLC), Olaf Booy (APHA), Rob Evans (CNC), Sophie Hocking (Advanced Invasives), Tara Daniels (WTSWW), Theresa Kudelska (CNC), Thomas King (Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd) |


Diweddariad WaREN
Diweddariad gan Bartneriaid
Coedwig Genedlaethol i Gymru
Llyfrothen uwchsafn
Unrhyw fater arall


## TROSOLWG O GAMAU GWEITHREDU

| Cam gweithredu | Dan arweiniad | Cyfnod | Diweddariad |
|---|---|---|---|
| **Diweddariad WaREN** | | | |

| Cam gweithredu | Dan arweiniad | Cyfnod | Diweddariad |
|---|---|---|---|
| Dim camau'n codi | | | |
| **Diweddariadau gan bartneriaid**<br>1. Cysylltwch â Jennie Jones am gopïau caled o 'Edrych, Golchi, Sychu'.<br>2. Cysylltwch â Kate Rodgers am gopïau caled o ganllaw INNS Gwastadeddau Gwent.<br>3. Kate Rodgers i rannu gwybodaeth am fathodyn INNS gyda Gemma Light.<br>4. Cysylltwch â Kate Rodgers os ydych chi'n defnyddio unrhyw ddarparwyr heblaw Coleg Gwent ar gyfer hyfforddiant PAW/PAW6 | Pawb â diddordeb i e-bostio Jennie<br><br>Pawb â diddordeb i e-bostio Kate<br><br>Kate Rodgers i e-bostio Gemma<br>E-bostiwch Kate gydag unrhyw wybodaeth. | | |
| **Sgwrs – Coedwig Genedlaethol i Gymru**<br>Dim camau'n codi | | | |
| **Sgwrs – Llyfrothen uwchsafn**<br>5. Phil Stone, Gareth Thomas a Rhys Jones i siarad am opsiynau bioddiogelwch ar gyfer ardaloedd dyfrol llyfrothod uwchsafn.<br>6. Rhys Jones i e-bostio Jo Cable gyda gwybodaeth am fonitro dŵr croyw CNC. | Phil Stone, Gareth Thomas a Rhys Jones<br>Rhys i e-bostio Jo | | |
| **Unrhyw fater arall / Camau nesaf**<br>7. Bydd cyfarfod Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn cael ei drefnu ar gyfer mis Medi/Hydref 2021 | Michaela Scrivin | | |

## PRIF BWYNTIAU A CHAMAU GWEITHREDU

Croesawodd Leasa Fielding bawb i'r cyfarfod gan nodi ymddiheuriadau. Cafodd rhestr camau gweithredu'r cyfarfod diwethaf ei hadolygu:

### Rhestr camau gweithredu o gyfarfod Hydref 2020

1. Michaela Scrivin i ymchwilio i'r dull gorau o gasglu adroddiadau o gamau'r aelodau ar gyfer LlC. Methu symud ymlaen oherwydd diffyg capasiti. Wedi'i ychwanegu at raglen waith Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru fel cais gan Lywodraeth Cymru pan fydd mwy o gapasiti.

2. Jennie Jones i drefnu cyfarfod rhwng Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, GBNNSS a Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i drafod defnydd o'r rhestr Rhywogaethau â Blaenoriaeth ar gyfer Gweithredu. Trefnwyd ar gyfer Tachwedd 2021.
3. Sylwadau/diwygiadau/gwelliannau ar y ddogfen yn egluro rolau grwpiau WaREN ac INNS Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i'w hanfon at Michaela. Wedi gwneud, ni dderbyniwyd unrhyw un.
4. Sylwadau ac awgrymiadau parthed hyfforddiant/teithiau maes y dyfodol i'w hanfon at Michaela. Wedi gwneud, ni dderbyniwyd unrhyw un.
5. Michaela i gysylltu â Chloe i drefnu erthygl nodwedd ar gyfer cylchlythyr INNS Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru Ionawr 2021. Wedi gwneud.
6. Cynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i'w chynnal yn rhithiol yn ystod wythnos 23 Tachwedd: pawb i ystyried galwadau am gynnwys. Wedi gwneud
7. Bydd cyfarfod Grŵp INNS Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn cael ei drefnu ym mis Mawrth 2021. Wedi gwneud

## Diweddariad WaREN

- WaREN 1 bellach wedi gorffen
  - Aroddiad 'Gaps and Barriers' wedi'i gynhyrchu – bydd hwn cael ei rannu unwaith y bydd CNC wedi'i gymeradwyo. Edrych ar nifer yr achosion/lleoliad INNS, o gymharu â lleoliad Grwpiau Gweithredu Lleol (LAGs), asesu'r bylchau.
  - Wedi cynnal dadansoddiad o INNS Cymru fesul sir - Morgannwg sydd â'r achosion mwyaf
  - Cynhaliwyd gweithdai ar-lein i gyllidwyr ym mis Chwefror 2021, gyda'r nod o'u denu i gyllido prosiectau INNS
  - Holi tua 60 o grwpiau gweithredu lleol yng Nghymru er mwyn pennu eu gallu i fynd i'r afael â'r camau INNS mwyaf brys.
  - Creu Cylch Gorchwyl WaREN
  - Cwmpasu'r addewid i grwpiau gweithredu lleol gofrestru – i'w gyflwyno yn ystod y cam nesaf
  - Roedd yr holl gamau y gellid eu cymryd dan gyfyngiadau Covid-19 wedi'u cyflawni.

- WaREN 2 i ddechrau yn wythnos gyntaf mis Ebrill
  - Recriwtio ar gyfer Rheolwr Prosiect a Swyddog Prosiect y Gogledd (Swyddog y De eisoes ar waith)
  - Y nod yw datblygu strategaeth gydlynol ar gyfer INNS a bioddiogelwch Cymru.
  - Sicrhau cyllid, wedi'i deilwra i INNS
  - Integreiddio nodau bioddiogelwch i bolisïau yn ddiofyn
  - Dusi Thomas wedi cytuno i fod yn gadeirydd annibynnol ar gyfer WaREN 2

**Pwyntiau trafod**

- Gofynnodd Beverley Lewis am restr y cyllidwyr a oedd wedi mynychu'r gweithdai - dywedodd Lyn y byddai crynodeb o'r wybodaeth allweddol yn cael ei gasglu o WaREN 1, gan gynnwys gwybodaeth am gyllid.

- Nododd Beverley Lewis fod gan Awdurdodau Lleol fwlch ariannu - nid yw cyllidwyr yn fodlon rhoi arian i Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael ag INNS gan eu bod yn ei ystyried yn ddyletswydd statudol, ond nid dyna'r achos.

## Diweddariadau gan Bartneriaid

Diweddariadau ysgrifenedig a rannwyd cyn y cyfarfod. Mae'r pwyntiau ychwanegol yn cynnwys:

- **Amgueddfa Cymru**. Arweiniad adnabod malwod dŵr croyw allan yn fuan. Yn cynnwys tua 10 INNS a gwybodaeth 'edrych, golchi, sychu'. AC wedi derbyn 15000 o gofnodion hyd yn oed yn ystod y cyfnod clo.
- **Canŵ Cymru**. Gorsafoedd golchi wedi'u cynllunio ar gyfer Llandysul, Canolfan Dŵr Gwyn Tryweryn, Plas y Brenin, ac o bosib Llyn Padarn. Nodwyd anawsterau dod o hyd i'r cynllun gorau - awgrymodd Phil Horton inni gysylltu â chyfleusterau hwylio. Wrthi'n gweithio ar becyn cymorth digwyddiadau bioddiogelwch i drefnwyr e.e. slalom.
- **Prifysgol Caerdydd/ Partneriaeth Aber Hafren (KHS)**. Cwblhawyd adroddiad ar INNS flynyddoedd yn ôl, ers hynny mae adroddiad blynyddol wedi cynnwys mesurau rheoli INNS ar gyfer casglu data. Hefyd yn gweithio gyda Lefelau Byw, a chodi ymwybyddiaeth drwy aelodau.
- **Prifysgol Caerdydd (JC)** Parhau i edrych ar bathogenau dŵr yn enwedig rhywogaethau o bysgod.
- **Canolfannau Cofnodion Amgylchedd Lleol (LERCs).** Diddordeb mewn siarad â CNC am ddata sy'n mynd ar Borth Gwybodaeth Amgylchedd Cymru.
- CNC. Pennod INNS ar gyfer SoNaRR bellach ar gael o'r wefan trwy'r ddolen ganlynol: Cyfoeth Naturiol Cymru / SoNaRR2020: Rhywogaethau estron goresgynnol (INNS). Copïau caled o 'Edrych, Golchi, Sychu' ar gael gan CNC – cysylltwch â Jennie Jones os hoffech chi rai.
- **Moroedd Byw NWWT**. Wedi gweithio i gynnwys cofnodi INNS yn arolygon Shoresearch. Chloe (CNC) ac Anna (AC) wedi darparu hyfforddiant i wella galluoedd adnabod.
- **NWWT**. Prosiect Llesiant SMS wedi'i ymestyn hyd at fis Mawrth 2022 oherwydd Covid. Yn y broses o gael cyllid ENRAW ar gyfer prosiectau peilot Ecosystemau Gwydn Gogledd Cymru gan gynnwys offer eDNA, gweithredu ar gyfer pysgotwyr, pori er lles cadwraeth ar gyfer INNS, ymwneud â WaREN 2, creu carfan o ddinasyddion bioamrywiaeth. Bydd yn para tan 2023.
- **GBNNSS**. Wedi derbyn cyllid gan LIC a'r Alban. Ail gyfarfod grwp 'Horticulture and Hitchhikers Pathway Action Plan' yr wythnos nesaf. Gweithdy Grŵp Gweithredu Lleol ym mis Ionawr. Mae Cyngor Prydeinig-Gwyddelig wedi sefydlu Tasglu Cacynen Asia. Cynhelir Fforwm Rhanddeiliaid ar-lein ym mis Mehefin.
- **GWLT**. Prosiect Jac y Neidiwr Elwy yn parhau gyda NWWT a grwpiau pysgota. Prosiect Geom yn parhau yn Aber. Wrthi'n gweithio ar system monitro afonydd ar gyfer geo-gyfeirio planhigion, gyda chwmni preifat StemTech.
- **Ardal Gadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau**: gweithdy i randdeiliaid ar y gweill ar gyfer dechrau mis Mai. Prosiect monitro INNS gan ddefnyddio eDNA ar y gweill
- **Advanced Invasives** Cyflwynwyd traethawd PhD Sophie ar glymog Japan wythnos diwethaf, i'w ddosbarthu ar ôl ei gyhoeddi.  Mae taflenni Jac y Neidiwr a'r

Efwr Enfawr bron yn barod, drafftiau wedi'u diweddaru yn mynd i LlC yr wythnos hon.

- **Lefelau Byw**. Mae copïau caled o ganllaw INNS Gwastadeddau Gwent ar gael – cysylltwch â Kate Rodgers os oes gennych ddiddordeb. Bydd bathodyn INNS sy'n cael ei greu ar gyfer geidiaid/sgowtiaid ac ati, yn cael ei drosglwyddo i CNC pan fydd Lefelau Byw yn gorffen. Kate i rannu gwybodaeth am fathodynnau gyda Gemma Light. Mae gan Kate gyllid ar gyfer hyfforddiant PAW/PAW6 ond mae'n anodd dod o hyd i ddarparwyr i roi hyfforddiant dan gyfyngiadau Covid. Os oes gennych unrhyw ddarparwyr heblaw Coleg Gwent, rhowch wybod i Kate.
- **RYA**. Bellach yn rhan o brosiect 'glow fouling' trwy aelodaeth o'r Gymdeithas Cychod Ewropeaidd, gyda phwyslais ar gychod hamdden. Darperir adborth.

**Camau gweithredu:** Cysylltwch â Jennie Jones am gopïau caled o 'Edrych, Golchi, Sychu'. Mae fersiynau wedi'u cyfieithu ar gael drwy e-bost gan LlC hefyd. Cysylltwch â Kate Rodgers os hoffech gopïau caled o ganllaw INNS Gwastadeddau Gwent. Kate Rodgers i rannu gwybodaeth am fathodyn INNS gyda Gemma Light. Cysylltwch â Kate Rodgers os ydych chi'n defnyddio unrhyw ddarparwyr heblaw Coleg Gwent ar gyfer hyfforddiant PAW/PAW6. Os na lwyddodd unrhyw un i anfon diweddariad partner at Michaela cyn y cyfarfod, mae croeso i chi anfon un cyn 9 Ebrill a gellir ei gynnwys gyda'r cofnodion pan gaiff ei ddosbarthu

## Coedwig Genedlaethol i Gymru

Siaradodd Erika Dawson a James Biott am y cynllun hwn, a lansiwyd flwyddyn yn ôl i greu rhwydwaith o goetir sy'n ymestyn ar hyd a lled ein gwlad. Canolbwyntio ar fwy o goed a choed o ansawdd gwell.

- 14 safle enghreifftiol ar hyn o bryd – oll wedi'u rheoli gan CNC, yn darparu cyfleoedd a buddion niferus. Gellir argymell safleoedd eraill (nad ydynt yn perthyn i CNC) yn ddiweddarach eleni.
- Mae tri dull gofodol gwahanol dan ystyriaeth ar hyn o bryd, o ran sut i drefnu'r Goedwig Genedlaethol.
  - Gogledd → De / De→ Gogledd: yn cynnwys coetir hynafol (fel Llwybr yr Arfordir)
  - Dull cylchol (yn cynnwys rhai ardaloedd morol)
  - Dull 'prif ganolfan a lloerennau'.
- Cynllun Grant Coetiroedd Cymunedol tan fis Mawrth 2022
- Mae'r prosiectau peilot sydd eisoes ar waith yn cynnwys Gardd Goed Brynbuga – cael gwared ar INNS, plannu coed newydd, a Chraig Gwladys - tynnu INNS i ffwrdd o'r INNS
- Cael gwared ar INNS yn rhan annatod o'r cynllun – gwella coetiroedd, gan eu hadfer i gyflwr gwell
- Cyflwyno mesurau bioddiogelwch o'r cychwyn cyntaf e.e. byrddau gwybodaeth, baddonau traed ac ati.
- E-bostiwch nationalforestwales@gov.wales i ymuno â'r rhestr gyswllt – er mwyn derbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau ac ati.
- Bydd llawer o waith cyfathrebu / ymgysylltu yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad yn ystod Gaeaf 2021.
- Gall awdurdodau lleol a chyrff anllywodraethol wneud cais i gronfa gymunedol - y meini prawf gorau i'w hystyried ar hyn o bryd yw Cronfa Dreftadaeth y Loteri

- Mae tudalen Coedwig Genedlaethol i Gymru ar y we: https://www.llyw.cymru/coedwig-genedlaethol-i-gymru

## Llyfrothen uwchsafn

Rhoddodd Gareth Thomas a Rhys Jones gyflwyniad yn canolbwyntio ar raglen fonitro dan gyfyngiadau COVID-19 - gyda modd o ymweld â 20 o'r 23 safle posib a'u monitro. Wedi canfod llyfrothod uwchsafn (TMG) mewn 4 safle - a dim llyfrothod uwchsafn ar unrhyw safleoedd lle'r oedd rhaglenni dileu blaenorol wedi'u cynnal. Y camau nesaf fydd cwblhau'r rhaglen fonitro wrth i'r cyfyngiadau lacio, gweithio gyda rhanddeiliaid i hyrwyddo bioddiogelwch mewn safleoedd a datblygu cynllun rheoli, parhau i fonitro i ganlyniadau Sicrwydd Ansawdd, a datblygu cynllun gweithredol ar gyfer y camau nesaf.

**Pwyntiau trafod**

- Dywedodd Niall Moore ei bod hi'n braf gweld rhaglenni'n mynd i'r afael â rhywogaethau â blaenoriaeth, a holodd am ddilysrwydd data eDNA. Atebodd Rhys Jones eu bod yn hyderus fod gwaith dileu yn llwyddiannus ond does dim modd gwarantu marcwyr eDNA – gallent fod yn gyrff sy'n pydru er enghraifft.
- Gofynnodd Niall Moore pryd fyddai'r broses ddileu yn digwydd. Atebodd Leasa Fielding fod cyllid wedi'i dderbyn ar gyfer monitro parhaus a datblygu astudiaeth dichonoldeb dros dro. Bydd gofyn wedyn am arian i drin y broblem - ond bydd yn ddrud iawn, felly does dim sicrwydd.
- Nododd Phil Stone fod rhai o'r cronfeydd dŵr sydd ar agor i'w defnyddio yn cynnwys llyfrothod uwchsafn. Sut gall padlfyrddwyr/ pysgotwyr sicrhau nad ydynt yn cludo'r llyfrothod hyn? Nododd Leasa fod llawer o gyfle i rannu negeseuon bioddiogelwch â chronfeydd dŵr sydd newydd eu hagor. Dywedodd Rhys Jones mai pysgod sydd fel arfer yn gyfrifol am eu cludo, ond bod perygl gydag wyau rhwng diwedd Ebrill/Mai a Rhagfyr. Wyau mewn ardaloedd ymylol yn bennaf, felly angen sicrhau bod pob dilledyn ac offer PFD/hynofedd ac ati yn cael eu golchi'n drylwyr. Phil Stone a CNC i siarad am opsiynau.
- Gofynnodd Jo Cable a fydd ardaloedd dŵr croyw yn cael eu monitro'n rheolaidd yn y dyfodol? Atebodd Leasa nad oedd hynny'n debygol o ddigwydd gyda'r pwysau presennol. Roedd Jo yn teimlo bod hyn yn rhywbeth y dylai INNS Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ei drafod fel grŵp. Nododd Rhys fod CNC yn monitro ardaloedd dŵr croyw ar eu gwarchodfeydd natur a'u coetiroedd, Rhys i e-bostio Jo gyda'r wybodaeth honno.

**Camau gweithredu:** Phil Stone, Gareth Thomas a Rhys Jones i siarad am opsiynau bioddiogelwch ar gyfer llyfrothod uwchsafn mewn ardaloedd dyfrol. Rhys Jones i e-bostio Jo Cable gyda gwybodaeth am fonitro dŵr croyw CNC.

## Unrhyw fater arall

- Datganiadau ‘Bird and Butterfly’ – trafod papur briffio a ddosbarthwyd gan APSE. Mae Abertawe yn paratoi datganiad safbwynt byr y maen nhw'n gobeithio ei rannu trwy CLlLC

- Codwyd pryderon am geisiadau data rhyddid gwybodaeth/ INNS at ddibenion hawlio yswiriant yn hytrach nag ar gyfer mynd i'r afael â'r INNS.
- Cyfarfod nesaf i'w drefnu ar gyfer Medi/Hydref 2021.